NUJ
NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

3 Gorffennaf 2024
Annwyl Aelod o'r Senedd,

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Gweithredol Cymru Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i'ch annog i bleidleisio yn erbyn Cymal 20 o'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), yn yr ystyriaeth lawn o welliannau ddydd Mawrth 9 Gorffennaf 2024.

Mae'r newid cyfreithiol arfaethedig hwn yn bygwth nid yn unig leihau'r wybodaeth bwysig sydd ar gael i'r cyhoedd, ond hefyd amddifadu papurau newydd lleol o ffrwd incwm pwysig ar adeg pan fyddant eisoes dan bwysau ariannol difrifol.

Byddai hefyd yn anfon neges a allai fod yn drychinebus, sef, ymhell o gymryd camau i fynd i'r afael â breuder y cyfryngau lleol yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth y Senedd, yn barod i roi diwedd ar ddiwydiant sydd eisoes ar fin dymchwel.

Byddai cymal 20 yn rhoi terfyn ar yr angen i awdurdodau lleol hysbysebu newidiadau i Dreth Gyngor mewn papurau newydd lleol. Byddai'n caniatáu iddynt wneud cyhoeddiad ar wefannau cynghorau (*"cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad yn electronig"*), a gwneud beth bynnag y maent yn penderfynu sy'n ddigonol i bobl heb fynediad i'r we ("gwneud trefniadau ar gyfer y cyhoedd na fyddent fel arall gallu cyrchu'r hysbysiad hwnnw").

Mae Hysbysiadau Statudol, sef y gofyniad bod awdurdodau lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i faterion amrywiol drwy hysbysebu yn y wasg leol (yn aml mewn cymunedau gwleidyddol anodd eu cyrraedd neu'n cael eu darllen gan bleidleiswyr a allai fod yn llai gwybodus am y rhyngrwyd), wedi bod yn bwysig ers tro i atebolrwydd democrataidd - maent yn darparu datganiad o gofnod ymarferol, byd go iawn na ellir ei newid na'i ddileu'n electronig hyd yn oed ar ddamwain - a hyfywedd ariannol papurau newydd.

Mae ein hundeb yn cydnabod yn llawn bod y ffordd y mae pobl yn derbyn gwybodaeth yn newid yn gyflym, fel y mae aelodau'n ymwybodol iawn. Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithgar yng Ngweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru.

Wedi dweud hynny, nid yw gweinidogion wedi ymateb eto i adroddiad y gweithgor, a oedd yn galw ar y Llywodraeth i *"archwilio'r gwariant o'r sector cyhoeddus ar hysbysiadau cyhoeddus, yn ogystal â gwerthuso eu heffaith"*. Cynigiodd yr adroddiad hefyd *"sgwrs gyda'r diwydiant newyddiaduraeth i ddiwygio meini prawf cymhwysedd ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus statudol, yn ogystal â'r mecanwaith dosbarthu, gyda digon o amser i allfeydd newyddion addasu i newidiadau, y dylid eu gweithredu'n ofalus ac yn raddol, ac yn cael ei gyfeirio ymlaen llaw."*.

Dylai unrhyw ddiwygiad i'r cyhoeddiad gan awdurdodau lleol am newidiadau i Dreth Gyngor, a gofynion hysbysiad statudol eraill, fod yn rhan o becyn cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â sut y gall pobl dderbyn gwybodaeth annibynnol am faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt a'u bro. Byddai cymal 20 Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yn gam anghywir gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol o bosibl. Anogwn chi i bleidleisio yn erbyn.

Diolch yn fawr,

Nick Powell,

Cadeirydd, Cyngor Gweithredol Cymru
Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

3 July 2024

Dear Member of the Senedd,
I am writing on behalf of the Welsh Executive Council of the National Union of Journalists to urge you to vote against Clause 20 of the Local Government Finance (Wales) Bill, at the plenary consideration of amendments on Tuesday 9 July 2024.

This proposed legislative change threatens not only to diminish the availability of important information to the public but also to deprive local newspapers of an important income stream at a time when they are already under severe financial pressure.

It would also send a potentially disastrous signal that far from taking action to address the fragility of local media in Wales, the Welsh Government, with the support of the Senedd, is prepared to push over the edge an industry already on the brink of collapse.

Clause 20 would end the requirement that local authorities advertise changes to Council Tax in local newspapers and allow them simply to make an announcement on their council websites ("publish a notice of the determination electronically") and to do whatever they decided would suffice for people without internet access ("make arrangements for the public who would otherwise not be able to access that notice").

Statutory Notices, the requirement that local authorities publicise various matters by advertising in the local press (often in politically hard-to-reach communities or read by voters who may be less internet savvy), have long been important both to democratic accountability providing a hands-on, real-life statement of record that cannot be electronically altered or erased even by accident and to the financial viability of newspapers.

The NUJ fully recognises that how people obtain information is rapidly changing, as the union's members are acutely aware. We continue to play an active role in the Welsh Government's Public Interest Journalism Working Group.

However, ministers have not yet responded to the working group's report, which called on the Government to "audit the spend from the public sector on public notices, as well as evaluating their impact". It also proposed "a conversation with the journalism industry to reform eligibility criteria

for statutory public notices, as well as the distribution mechanism, with time built in to allow news providers to adjust to any changes, which should be executed carefully and gradually and signposted well in advance".

Any reform of how local authorities publicise Council Tax changes and other statutory notice requirements needs to be part of a comprehensive package that addresses how people can receive independent information about matters directly affecting them and the place where they live. Clause 20 of the Local Government Finance (Wales) Bill would be a misstep with potentially far-reaching consequences. We urge you to vote it down.

Many thanks,

Nick Powell,

Chair, Welsh Executive Council

National Union of Journalists